GARDD FOTANEG GENEDLAETHOL CYMRU

# Etholiad y Senedd 2026



## CYMRU: ARWEINYDD BYD O RAN NATUR

**Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i hwyluso a buddsoddi mewn cydweithrediadau a phartneriaethau'n ymwneud â threftadaeth naturiol Cymru — gan ddiogelu ein fflora unigryw, mynd i'r afael â phroblem colli bioamrywiaeth, buddsoddi mewn swyddi a sgiliau gwyrdd, a datgloi pŵer natur er llesiant cymunedau ledled y wlad.**

# Amdanom ni

Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn sefydliad cenedlaethol sy'n darparu gwerth cyhoeddus ar ran Cymru. Mae'r Ardd yn gyrchfan poblogaidd dros ben i ymwelwyr ac yn un o dlysau economi ymwelwyr Cymru. At hynny, a hithau'n sefydliad addysgol a gwyddonol, mae wedi ymrwymo i ymateb Cymru i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a'r argyfwng hinsawdd a natur, a gyhoeddwyd gan y Senedd yn 2021.

**26**
o flynyddoedd ar flaen y gad o ran cadwraeth yng Nghymru

**360+**
o rywogaethau planhigion Cymru yn cael eu cadw yn y Banc Hadau Cenedlaethol at ddibenion adfer yn y dyfodol

**26,000+**
o sbesimenau'r llysieufa wedi'u digideiddio i ddarparu mynediad byd-eang at ddata ar gyfer ymchwil i'r newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth

**200,000+**
o ymwelwyr yn cael eu croesawu bob blwyddyn

**42,000**
o ymweliadau ar gyfer iechyd a llesiant bob blwyddyn

Gweithio ochr yn ochr â
**250**
o wirfoddolwyr cymunedol

Cyflogi hyd at
**100**
o bobl yn Sir Gaerfyrddin wledig

Prynu oddi wrth
**185**
o gyflenwyr yng Nghymru a gwario
**£1.2 miliwn**
yn lleol bob blwyddyn

## Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i ymrwymo i dair blaenoriaeth:

1. **Cymorth Sylfaenol:** Galluogi cydweithrediadau amlranddeiliad i sicrhau dyfodol natur a phobl trwy ddarparu cyllid amlflwyddyn sy'n gyson â'r deilliannau â blaenoriaeth yng Nghymru

2. **Yr Economi Werdd a Chymunedau:** Buddsoddi mewn hyfforddiant a sgiliau gwyrdd ar gyfer anghenion gweithlu'r dyfodol ym maes cadwraeth, adfer tir, addasu i'r hinsawdd a phresgripsiynu cymdeithasol i dyfu'n wyrdd i wella llesiant ledled Cymru.

3. **Arwain o ran yr Hinsawdd:** Gosod Cymru fel arweinydd y byd o ran atebion seiliedig ar natur i'r newid yn yr hinsawdd.

Mae i'n ceisiadau ffocws, maent yn seiliedig ar dystiolaeth, ac maent yn barod i gyflawni effaith wirioneddol ar gyfer pobl a natur ar hyd a lled Cymru.

> *Mae Cymru'n wynebu argyfwng natur. Mae gan Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ran unigryw a hanfodol i'w chwarae — fel lle ar gyfer gwyddoniaeth, cadwraeth, rhannu gwybodaeth a chysylltiadau cymunedol. Mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru fod yn bartner uchelgeisiol yn y gwaith hwn'*
>
> **Dr Lucy A. Sutherland, Cyfarwyddwr GFGC**



## Is-bennawd: Pam y mae ar Gymru Angen Natur 'Nawr

Mae Cymru'n wynebu heriau sylweddol o ran bioamrywiaeth, a'r rheiny'n cyflymu. Mae rhywogaethau brodorol yn diflannu, mae cynefinoedd yn crebachu, ac mae'r systemau naturiol sy'n sail i gymunedau iach, dŵr glân, a hinsawdd sefydlog o dan bwysau digynsail. Mae targedau'r Llywodraeth — gan gynnwys yr ymrwymiad i warchod 30% o'r tir a'r môr ar gyfer natur erbyn 2030 — yn gofyn am gamau gweithredu ymroddedig a phartneriaid dibynadwy sy'n barod i gyflawni hyn ar raddfa fawr.





Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru mewn sefyllfa unigryw i ymateb. A ninnau'n geidwaid *Gwarchodfa Natur Genedlaethol Waun Las* a'i gwasanaethau ecosystem, ac yn ganolfan genedlaethol ar gyfer gwyddoniaeth bioamrywiaeth, cadwraeth, addysg natur, treftadaeth Cymru a phartneriaethau cymunedol, rydym wedi treulio dros ddau ddegawd yn meithrin yr arbenigedd a'r perthnasoedd ac yn datblygu'r seilwaith angenrheidiol i wneud gwahaniaeth mesuradwy. Rydym yn partneru â Llywodraeth Cymru, prifysgolion, Sefydliadau trydydd sector, awdurdodau lleol, ysgolion a chymunedau i ddiogelu treftadaeth naturiol Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ar adeg o newid gwleidyddol a chyllidebau sy'n tynhau, ni fu'r achos dros fuddsoddi mewn natur a chydweithredu erioed yn gryfach — nac yn fwy o fater brys. Mae'r ceisiadau yn y maniffesto hwn yn brofedig, yn gosteffeithiol, ac yn barod i'w gweithredu ar raddfa fawr.

**1 mewn 6**
**rhywogaeth yng Nghymru mewn perygl o ddifodiant yn genedlaethol**

**77%**
**am weld rhagor o natur yn ffynnu yn eu mannau gwyrdd***

**80%**
**yn dweud bod yr amser a dreulir mewn natur yn bwysig i'w llesiant***

**76%** **Roedd dros dri chwarter (76%) yr ymatebwyr am weld y llywodraeth bresennol a llywodraethau'r dyfodol yn cymryd camau pellach i fynd i'r afael â'r broblem o golli natur.**

*Arolwg RSPB Cymru

1

# Cymorth Sylfaenol

## Diogelu dyfodol cadwraeth natur yng Nghymru



Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn ased cenedlaethol ac mae'n chwarae rhan hanfodol, unigryw wrth ddarparu polisi natur i Lywodraeth Cymru. Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn cyflwyno gwyddoniaeth o safon fyd-eang, arbenigedd ar gadwraeth, a chwmpas cymunedol i'r her o adfer natur — ac rydym yn barod i wneud mwy. Mae *Gwarchodfa Natur Genedlaethol Waun Las*, sy'n rhan o ystad yr Ardd, yn esiampl dda o waith adfer tirlun a gwarchod bioamrywiaeth, gan alluogi mynediad i ysbrydoli ac addysgu. Mae'r *Banc Hadau Cenedlaethol* yn rhwyd diogelwch rhag y newid yn yr hinsawdd, diflaniad cynefinoedd, a llygredd, gan ddarparu deunydd hanfodol ar gyfer adferiad ecolegol, ymchwil wyddonol, a'r gwaith o ailgyflwyno rhywogaethau dan fygythiad yng Nghymru. Rydym yn cyflawni canlyniadau hirdymor, amlgenhedlaeth ar gyfer Cymru, a hynny ar gyllid byrdymor, anwadal. Nid yw hyn yn gynaliadwy — ac mae'n rhoi treftadaeth naturiol Cymru mewn mwy o berygl.

## Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i wneud y canlynol:

**Darparu cyllid craidd amlflwyddyn i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru er mwyn:**

Cefnogi'r Ardd yn ei rôl o fod yn Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth Bioamrywiaeth, Cadwraeth ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd sy'n galluogi budd y cyhoedd, ac yn ei rôl o fod yn bartner cenedlaethol dibynadwy wrth iddi gyfrannu at gyflawni'r ymrwymiad 30x30 a nodau adfer natur Deddf yr Amgylchedd (Cymru) trwy wneud y canlynol:

- cyflawni targedau bioamrywiaeth Cymru trwy raglen barhaus y Banc Hadau Cenedlaethol i warchod rhywogaethau planhigion brodorol a diogelu amrywiaeth enynnol rhag difodiant a'r newid yn yr hinsawdd — gan sicrhau bod yr adnoddau byw hyn ar gael i'w defnyddio mewn gwaith adfer ledled Cymru yn y dyfodol.
- defnyddio tirwedd fotanegol unigryw a hygyrch Yr Ardd, sy'n integreiddio casgliadau byw, *Gwarchodfa Natur Genedlaethol Waun Las* a fferm organig, yn llwyfan cenedlaethol i gyfathrebu ac arloesi mewn perthynas â gwarchod planhigion, adfer bioamrywiaeth a systemau bwyd cynaliadwy.
- cefnogi arbenigedd Yr Ardd ym maes fflora Cymru a thu hwnt, a gydnabyddir yn rhyngwladol.



# 2 Yr Economi Werdd a Chymunedau

## Uwchsgilio a chysylltu pobl a natur i sicrhau cyfleoedd a llesiant gydol oes



Mae ystad Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn hwb ar gyfer datblygu sgiliau gwyrdd trwy brentisiaethau ar gyfer y rheiny sy'n gadael yr ysgol neu'n newid gyrfa, lleoliadau myfyrwyr, astudiaethau ôl-raddedig, a gwirfoddoli. Byddai ein hymrwymiad a'n gwaddol i sicrhau chwyldro sgiliau gwyrdd mewn garddwriaeth, ymchwil, cadwraeth ac adfer yn gyson â strategaeth genedlaethol weledigaethol ar gyfer hyfforddiant a sgiliau gwyrdd yng Nghymru.

Mae yna tua 549,000 o blant a phobl ifanc ledled Cymru (*Y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2023*) — ac mae traean ohonynt yn byw mewn tlodi (Comisiynydd Pant Cymru 2024). Maent wedi rhannu eu dymuniad i gael mwy o gyfleoedd profiad gwaith a chyngor ar yrfaoedd o ansawdd mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach, yn ogystal â modelau rôl cadarnhaol yn y byd gwaith a hunangyflogaeth (Llywodraeth Cymru 2024:19). Yn 2025, lansiodd Yr Ardd ei menter '*Pob Plentyn yng Nghymru*' i alluogi plant a phobl ifanc i feithrin cysylltiad â'i staff ysbrydoledig, sy'n fodelau rôl cadarnhaol, ac i brofi eu safbwynt ar werth natur, rôl STEM, a'r cyfleodd sydd ar gael i weithio mewn swyddi gwyrdd yng Nghymru.

Mae'r Ardd yn fan lle mae pobl o bob oed a chefndir yn ymgynnull ac yn cysylltu â phlanhigion a'r byd naturiol. Caiff tua 40% eu cymell i ymweld er budd penodol iechyd a llesiant. Gall Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ddatblygu ymhellach i fod yn hwb ar gyfer bywyd cymunedol a llesiant, a meithrin cysylltiadau ystyrlon â chymunedau ar hyd a lled Cymru. Gall gynorthwyo Llywodraeth Cymru i lunio dyfodol ar y cyd a helpu'r gymuned i lywio ansicrwydd a sut i fyw gyda heriau'r newid yn yr hinsawdd, megis wrth helpu trwy fentrau gwyrddio trefol a garddio cymunedol.





## Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i wneud y canlynol:

- **Ehangu presgripsiynu cymdeithasol gwyrdd ledled Cymru**, gan gydnabod bod Yr Ardd yn bartner cyflenwi trwy ei Gwarchodfa Natur Genedlaethol a'i gardd fotaneg.
- **Buddsoddi mewn rhaglenni addysgol STEM a rhai sy'n seiliedig ar natur ar gyfer ysgolion** a chefnogi menter allgymorth **Pob Plentyn yng Nghymru** Yr Ardd i fod o fudd i gymunedau ynysig.
- **Hwyluso a chefnogi partneriaethau ar gyfer ehangu prentisiaethau gwyrdd, rhaglenni ailsgilio, ac addysg oedolion**, gan ffocysu ar rolau megis cadwraeth ac adfer cynefinoedd, ffermio cynaliadwy, ynni adnewyddadwy, a mwy.
- **Hyrwyddo cyfleoedd diwylliannol trwy natur a threftadaeth**, gan gydnabod rôl Yr Ardd ac atyniadau eraill wrth iddynt gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg, hyrwyddo mynediad i gymunedau at y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth, a chysylltu pobl â'r dirwedd, yr hanes, a'r hunaniaeth sy'n gwneud Cymru'n unigryw.



> **"Nid moeth mo natur — mae'n ased iechyd y cyhoedd. Mae buddsoddi mewn presgripsiynu cymdeithasol gwyrdd ac addysg seiliedig ar natur yn cyflawni enillion mesuradwy: llai o bwysau ar y GIG, cryfhau cymunedau, a galluogi cenhedlaeth sydd â'r sgiliau i arwain dyfodol gwyrdd Cymru."**

# 3 Arwain o ran yr Hinsawdd

## Gosod Cymru fel arweinydd y byd – yn uchelgeisiol wrth ddatrys heriau

Ni ellir gwahanu'r hinsawdd sy'n newid a'r argyfwng natur, ac mae angen ymgorffori camau gweithredu ym mhob penderfyniad. Planhigion ac ecosystemau yw sylfaen ein hymateb — dal a storio carbon, oeri dinasoedd, gwarchod cyflenwadau dŵr, a chefnogi sicrwydd bwyd. Mae gan Gymru'r wyddoniaeth, y dirwedd a'r sefydliadau i arwain a chydweithio. Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn barod i fod yn sefydliad blaenllaw ar gyfer yr uchelgais hwnnw.





## Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i wneud y canlynol:

- **Gweithio gyda'r Ardd yn ei rôl o fod yn Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth Bioamrywiaeth, Cadwraeth ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd**, a hynny gydag ymrwymiad penodol i ymchwil hinsawdd seiliedig ar fioamrywiaeth ac i bartneriaethau cenedlaethol a rhyngwladol.
- **Datblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer defnyddio a rheoli tir**, gyda'r Ardd yn cefnogi ac yn cydweithredu mewn perthynas â datblygu sgiliau, arddangos, a rhannu gwybodaeth ledled y sector.
- **Integreiddio arbenigedd botanegol i mewn i Ddatrysiadau Seiliedig ar Natur a chyllid Cymru**, gan sicrhau bod gwyddor planhigion yn llywio'r gwaith o adfer cynefinoedd, atafaelu carbon, a rheoli'r risg o lifogydd.
- **Meithrin partneriaethau i hyrwyddo Cymru ar y llwyfan rhyngwladol** o ran bod yn arweinydd byd wrth fynd i'r afael â heriau'r hinsawdd.

# CRYNODEB:

## Dibynadwy, Profedig, ac yn Barod i Gyflawni

Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru wedi treulio dros ddau ddegawd yn adeiladu'r arbenigedd, y partneriaethau a'r ymddiriedaeth gyhoeddus sy'n ofynnol i gyflawni ar gyfer pobl a natur. Nid ydym yn gofyn am unrhyw beth newydd — rydym yn gofyn am yr ymrwymiad parhaus i natur a fydd yn caniatáu i raglenni profedig, costeffeithiol dyfu'n gymesur ledled Cymru.

Mae gan Lywodraeth nesaf Cymru gyfle i fod yn fentrus: i fuddsoddi mewn cynlluniau ymarferol ar gyfer Cymru lanach, wyrddach, iachach lle rydym yn cydweithredu ar draws sectorau, a lle mae gan bob cymuned fynediad at natur, lle caiff treftadaeth naturiol Cymru ei gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a lle mae ein gwyddoniaeth fotanegol sydd o safon fyd-eang yn llywio datrysiadau ar gyfer yr hinsawdd, a hynny gartref a thramor.

**Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio mewn partneriaeth agos â Llywodraeth nesaf Cymru i wireddu'r weledigaeth a rennir hon.**



**GARDD FOTANEG GENEDLAETHOL CYMRU**

**botanicgarden.wales**

**ETHOLIAD Y SENEDD 2026**

Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (GFGC) wedi'i chofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau, Rhif Elusen Gofrestredig 1036354, ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant (Rhif Cofrestru'r Cwmni 2909098 a Rhif TAW GB692340334). Cefnogir yr elusen gan ymwelwyr, aelodau, a phobl Cymru. Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn cael cymorth grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru.